

Presennol

Mr C Jones OBE – Cadeirydd

G Thomas

Mr P Clarke

Mrs J Kiely

G Walter

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

MJ Williams

Swyddogion:

Kelly Watson

Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio

Mark Galvin

Uwch Swyddog Gwasanaethau Democraidd - Pwyllgorau

Stephen Griffiths

Swyddog Gwasanaethau Democraidd – Pwyllgorau

116. DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd G Walter fuddiant personol a rhagfarnol yn yr achos.

117. EITEMAU BRYD

Dim

118. GWAHARDD Y CYHOEDD

Ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor a fyddent yn clywed y mater fel eitem eithriedig o dan Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Derbyniwyd ceisiadau gan y Cynghorydd Sean Aspey a swyddogion Ombwdsmon Sector Cyhoeddus Cymru (OSCC).

Gofynnodd y Cynghorydd Aspey am gynnal y cyfarfod yn breifat, gan nodi natur wirioneddol y gŵyn a'r achwynydd. Dadleuodd fod y pwnc wedi achosi cryn bryder yn y gymuned leol ac os byddai dogfennau cyhoeddus yn cael eu rhyddhau, nid oedd am i unrhyw beth o ran achwynydd wedi'i olygu neu rywun ddyfalu pwy allai fod. Nid oedd am gael unrhyw ôl-ffeithiau iddo ef na'r person a wnaeth y gŵyn.

Nododd y cynrychiolydd o OSCC ei fod er budd didwylledd a thryloywder i'r gwrandawriad gael ei gynnal yn gyhoeddus. Roedd hyn er mwyn sicrhau hyder y cyhoedd yn y drefn safonau moesegol yng Nghymru. Nododd fod yr wybodaeth a arweiniodd at yr ymchwiliad ar gael ar fforymau cyhoeddus fel Facebook a sylwedd y gŵyn yn ymwneud â llythyr a oedd yn cael ei rannu'n gyhoeddus. Nododd fod y Cynghorydd Aspey wedi gofyn i'r gwrandawriad gael ei gynnal yn breifat ac i ddogfennau perthnasol gael eu dal yn ôl o'r cyhoedd oherwydd pryder y bydd preswylwyr yn ceisio sefydlu tarddiad y gŵyn wreiddiol, er bod y pryder hwn am ymddygiad posibl rhai preswylwyr yn aneglur.

Nododd fod canllawiau Panel Dyfarnu Cymru (PDC) sy'n nodi y dylid cynnal gwrandawriadau yn gyhoeddus, ac eithrio pan fo'r Tribiwnlys o'r farn y byddai cyhoeddusrwydd yn niweidio'r buddiannau neu'n bygwth diogelwch personol unrhyw bartion sy'n rhan o'r achos. Mae'n nodi y bydd y Tribiwnlys yn gofyn am dystiolaeth

argyhoeddiadol o niwed sylweddol i'r unigolion dan sylw neu'r gwrandawriad neu er budd y cyhoedd yn gyffredinol cyn cynnal gwrandawriad yn breifat.

Roedd y cynrychiolydd o OSCC yn cydnabod bod y penderfyniad ynghylch cynnal y gwrandawriad yn gyhoeddus yn fater i'r Pwyllgor Safonau ei benderfynu arno yn gyfan gwbl ond nid oedd yn ystyried bod y Cynghorydd Aspey wedi dangos tystiolaeth o risg sylweddol i ddiogelwch personol yr aelod o'r cyhoedd neu wedi dangos risg o niwed sylweddol i aelod o'r cyhoedd. Fodd bynnag, fe wnaeth gydnabod y dylid cymryd gofal i ddiogelu hunaniaeth yr achwynydd gwreiddiol os bydd unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â'r ymchwiliad yn cael eu datgelu.

Fe'i gwnaed yn glir bod Pwyllgor Safonau yn gallu cynnal gwrandawriad yn gyhoeddus heb gyhoeddi adroddiad ac atodiadau'r Ombwdsmon tan ar ôl i'r achos ddod i ben. Mae hefyd yn agored i'r Pwyllgor Safonau symud i sesiwn breifat os oes angen trafod unrhyw wybodaeth sensitif a allai fod yn ymwneud â'r achwynydd ar unrhyw adeg. Nododd y cynrychiolydd o OSCC nad oedd o'r farn y byddai hyn yn angenrheidiol oherwydd bod ffeithiau'r achos wedi eu tynnu o'r dogfennau.

Roedd holl aelodau'r panel o'r farn y dylid cynnal y gwrandawriad yn gyhoeddus.

#### **PENDERFYNWYD:**

Penderfynodd y Pwyllgor glywed y mater yn gyhoeddus.

#### **119. YMCHWILIAD YR OMBWDSMON O DAN A69 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

Pwrpas y cyfarfod oedd cynnal y gwrandawriad i ymddygiad y Cynghorydd Sean Aspey, Aelod Etholedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP).

O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, mae pob honiad a thoriad o'r Cod Ymddygiad yn cael eu cyflwyno i OSCC i'w hymchwilio yn y lle cyntaf.

Gall yr Ombwdsmon benderfynu y dylid cyfeirio mater i Swyddog Monitro'r Awdurdod ar gyfer ymchwilio neu, fel yn yr achos hwn, gall wneud yr ymchwiliad a chyfeirio'r mater i'r Swyddog Monitro i'w ystyried gan y Pwyllgor Safonau.

Mae'r Pwyllgor eisoes wedi ystyried adroddiad yr Ombwdsmon, gan nodi bod y gwrandawriad cychwynnol a drefnwyd ar gyfer 19 Medi 2022 wedi'i ohirio oherwydd marwolaeth Brenhines Elisabeth II a chyfnod galaru'r wladwriaeth. Cafodd gwrandawriad dilynol ar gyfer 24 Tachwedd 2022 ei ohirio hefyd gyda chytundeb Cadeirydd y Pwyllgor gan nad oedd y Cynghorydd Aspey yn gallu bod yn bresennol am resymau meddygol yn anffodus. Gofynnir i aelodau nodi mai dyma'r dyddiad cyntaf sydd ar gael i aildrefnu'r gwrandawriad oherwydd nad oedd ganddynt niferoedd digonol neu ofynnol (cworwm) ar gyfer cyfarfodydd.

Atodwyd y weithdrefn fabwysiedig ar gyfer y gwrandawriad i'r adroddiad fel **Atodiad 4**. Gwnaeth y Pwyllgor, yn unol â'u gweithdrefn fabwysiedig, ymdrin â'r achos mewn tri cham.

#### **Cam 1: Y Ffeithiau**

Derbyniodd swyddfa'r Ombwdsmon gŵyn bod y Cynghorydd Aspey, Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP) wedi torri'r Cod Ymddygiad. Honnir bod y Cynghorydd Aspey wedi defnyddio ei safle yn amhriodol mewn cysylltiad ag ymdrechion codi arian i wrthwynebu cynlluniau gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ystyried defnyddio gwesty ym Mhorthcawl i gynnal Canolfan Breswyl i Fenywod, y cyntaf yng Nghymru.

Ystyriodd yr ymchwiliad yn ystyried a yw'r Aelod wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau canlynol y Cod Ymddygiad:

(6)(1)(a) - rhaid i Aelodau beidio ag ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ystyried ei fod yn dwyn anfri ar eu swyddfa neu awdurdod.

7(a) - rhaid i Aelodau, yn eu rhinwedd swyddogol neu fel arall, ddefnyddio neu geisio defnyddio eu safle yn amhriodol i roi neu sicrhau mantais i'w hunain, neu unrhyw berson arall, neu greu neu osgoi anfantais i'w hunain, neu unrhyw berson arall.

Yn ystod yr ymchwiliad, cafwyd copiâu o ddogfennau perthnasol gan CBSP, cafwyd cyfrifon tystion, a darparwyd cyfrif gan y Cynghorydd Aspey.

### Ffeithiau Diamheuol

- Mae'r Cynghorydd Aspey wedi derbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.
- Mae'r Cynghorydd Aspey yn un o drigolion Porthcawl.
- Ym mis Mawrth 2021 dosbarthwyd llythyr gan Cushman a Wakefield at drigolion yng nghyffiniau'r Gwesty yn dweud bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn bwriadu cyflwyno cais cynllunio i'r Cyngor yng Ngwanwyn 2021 i newid defnydd y Gwesty i'r Ganolfan.
- Cafodd y Grŵp ei sefydlu gan drigolion i wrthwynebu cynlluniau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.
- Cyfarwyddodd y Grŵp i gwmni cyfreithiol weithredu ar ei ran.
- Sefydlodd y Grŵp dudalen GoFundMe i godi arian i dalu'r ffioedd cyfreithiol.
- Cynorthwyodd y Cynghorydd Aspey y Grŵp ac roedd yn aelod o'i grŵp Facebook.
- Roedd y Cynghorydd Aspey yn gweithredu yn ei rôl fel aelod etholedig pan gynorthwyodd y Grŵp.
- Dosbarthwyd llythyr gan y Grŵp at holl drigolion Porthcawl i gyrraedd y rheini heb fynediad at Facebook a GoFundMe.
- Cyfeiriodd y llythyr at "y cais cynllunio" pan nad oedd cais cynllunio wedi'i wneud i'r Cyngor.
- Cyfeiriodd y llythyr at yr effaith y gallai'r Ganolfan ei chael ar Borthcawl, yn seiliedig ar farn asiant tai lleol a phrofiadau preswylwyr pan oedd pobl ddi-gartref yn cael eu cynnal yng ngwestai Porthcawl yn ystod y pandemig.
- Amlinellodd y llythyr y gellid rhoi rhodd gan ddefnyddio GoFundMe, yn uniongyrchol i gyfrif banc y Cynghorydd Aspey neu drwy ffonio'r Cynghorydd Aspey, a fyddai'n casglu sicciau.
- Yr unig berson a enwyd ar y llythyr oedd y Cynghorydd Aspey.
- Defnyddiodd y Cynghorydd Aspey gyfrif banc personol, segur i dderbyn rhoddion.
- Trosglwyddodd y Cynghorydd Aspey y rhoddion a dderbyniwyd i'w gyfrif banc i'r cyfrif GoFundMe.
- Casglodd y Cynghorydd Aspey roddion gan drigolion yn bersonol, gan gynnwys dynes 99 oed.
- Roedd y Cynghorydd Aspey yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel Aelod etholedig pan gasglodd roddion gan drigolion.
- Codwyd pryderon gyda'r Cyngor am gysylltiad y Cynghorydd Aspey â'r ymgyrch codi arian.
- Ni wnaeth y Cyngor ymchwilio i'r mater, oherwydd ystyriodd nad oedd unrhyw droseddau Safonau Masnach na Deddf Twyll wedi'u cyflawni o fewn cynnwys y llythyr.

- Dywedodd Prif Weithredwr y Cyngor wrth y Cynghorydd Aspey fod y gwaith codi arian yn gynamserol ac yn rhesymol mai dim ond ar ôl gwneud cais cynllunio y byddai ei angen.
- Erbyn 12 Mai 2021 tynnodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ei ddi-ddordeb yn y Gwesty fel safle posibl i'r Ganolfan.
- Gallai preswylwyr fod wedi gwrthwynebu cynlluniau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder heb godi unrhyw arian.
- Defnyddiwyd yr arian a godwyd i dalu'r ffioedd cyfreithiol a ysgwyddwyd gan y Grŵp a ffioedd prosesu GoFundMe sy'n fwy na £3300, gyda'r gweddill wedi'i rannu rhwng yr RNLi a'r Cadetiaid Môr, fel y nodwyd yn y Llythyr.

### Ffeithiau Dadleuol

#### **A wnaeth y Cynghorydd Aspey wirio cynnwys y Llythyr am gywirdeb cyn cymeradwyo ei argraffu a'i ddsbarthu?**

Cyflwynodd y cynrychiolydd o OSCC ddadansoddiad yr adroddiad o'r dystiolaeth. Dywedodd y Cynghorydd Aspey ei fod yn gwirio'r Llythyr cyn iddo gael ei argraffu i sicrhau ei fod yn gyfreithiol ac yn gywir a'i fod yn credu ei fod wedi'i eirio'n dda iawn. Dywedodd awdur y llythyr na ofynnwyd i'r Cynghorydd Aspey wirio cynnwys y Llythyr cyn iddo gael ei ddsbarthu i drigolion. Derbyniodd yr Ombwdsmon gyfrif y Cynghorydd Aspey ac roedd yn fodlon y gwnaeth wirio'r Llythyr cyn ei argraffu a'i ddsbarthu wrth gydbwysu tebygolrwydd.

#### **A oedd cynnwys y Llythyr yn gamarweiniol ac anghywir?**

Unwaith eto, cyflwynodd y cynrychiolydd o OSCC ddadansoddiad yr adroddiad o'r dystiolaeth. Er i'r Cynghorydd Aspey ddweud bod y Llythyr yn gyfreithiol ac yn gywir, nid oedd. Nid oedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi gwneud cais cynllunio ac nid oedd yr awgrym ei fod wedi'i wneud a'r cais am gyllid brys i ymdrin ag ef, yn gywir ac roedd yn gamarweiniol.

Daeth i'r casgliad drwy ddweud nad oedd hi'n ymwybodol o unrhyw ddadleuon eraill mewn cysylltiad â chanfyddiadau'r ffaith y byddai wedi bod yn ofynnol cyflwyno'r broses cyn y gwrandawriad, yn unol â'r broses. Felly, roedd hi'n fodlon bod y manylion yn yr adroddiad yn sefyll, ac ni fyddai'r Ombwdsmon yn gwneud sylw pellach am y ffeithiau. Fodd bynnag, byddai'n croesawu'r cyfle i wneud sylwadau os bydd unrhyw faterion eraill yn codi.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Aspey i gadarnhau a oedd yn cytuno â'r ffeithiau ac a oedd unrhyw faterion yn dal i fod yn ddadleuol. Nodwyd bod y Cynghorydd Aspey wedi cael cyfle i ymateb ymlaen llaw a bod yr Ombwdsmon wedi cael cyfle i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd, felly ni ragwelwyd y byddai mwy ar hyn o bryd.

Mewn ymateb, nododd y Cynghorydd Aspey ei fod wedi cyflwyno cymaint o wybodaeth ag y gallai. Dywedodd, yn y pen draw, na wnaeth gymryd pethau ac achub y blaen. Roedd tuedd iddo eu hystyried. Nid oedd yn gwneud penderfyniadau ar unwaith. Roedd tuedd iddo gysgu arnynt ac y byddai fel arfer yn cyrraedd penderfyniad o fewn 48 awr. Ac yna yn amlwg os oes rhywbeth nad yw'n gwbl hapus ag ef, oherwydd fe wnaeth sôn mewn rhan o'r llythyr am ddegymu prisiau tai. Fe wnaeth dybio a oedd hynny'n gywir neu ddim ac ymgynghorodd ag asiant tai yr oedd yn ei adnabod ac yn amlwg o'r wybodaeth a ddarparodd roedd o'r farn bod y paragraff yn gywir. Dywedodd iddo gael gwybod y byddai prisiau tai wedi cwmpo rhwng 25 a 30% yn y cyffiniau ac y byddai wedi cael effaith ar draws llawer o Borthcawl. Dywedodd ei fod wedi cael cyswllt o Ysgol Gynradd Drenewydd yn Notais ac Ysgol Gyfun Porthcawl ynghylch eu pryderon am

ddiogelwch disgyblion o ran unrhyw gynnig posibl neu pe bai wedi dwyn ffrwyth. Nododd yn amlwg fod yn rhaid iddo ystyried hynny.

Roedd yn credu mai ei brif gamgymeriad posibl oedd ei fod wedi datgan yn y llythyr ei fod naill ai'n arfaethedig, sy'n golygu eu bod yn mynd i'w wneud neu eu bod yn bwriadu ei wneud a oedd hefyd yn golygu eu bod yn mynd i'w wneud. Nododd wrth ddarllen y llythyr yn llawn y byddech yn cael yr argraff fod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn mynd i'w wneud yn hytrach na'i fod wedi gwneud eisoes. Dyna oedd ei ddehongliad ef.

Dywedodd nad oedd ymgais fwriadol i gamarwain. Ni ysgrifennodd y llythyr ond fe wnaeth rai gwiriadau cefndir. Dywedodd na wnaeth blymio i mewn i bethau'n ysgafn. Roedd yno i'r trigolion yn y cyfarfod cychwynnol a gawsant ar y stryd, a dywedodd y byddai'n eu cefnogi mewn unrhyw ffordd y gallai. Ar y pryd, nid oedd yn rhan o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ac nid oedd yn rhan o'r Pwyllgor Cynllunio ar Gyngor Tref Porthcawl, felly gallai fod wedi siarad mewn cyfarfod pe bai wedi'i gyflwyno i gyfleu barn y trigolion. Fe wnaethon nhw gymryd eu camau eu hunain a ffurfio grŵp o ran defnyddio eu tîm cyfreithiol eu hunain, a dywedodd fod ganddyn nhw berffaith hawl i wneud hynny. Gofynnodd iddyn nhw pam ar y pryd ac yn amlwg roedd yn ymwneud i raddau helaeth ag ymddiriedaeth. Mae llawer o'r trigolion yn rhai hirsefydlog ym Mhorthcawl ac mae ganddynt ddrwgdybiaeth ddofn o'r awdurdod hwn o ran gweithredu drostynt. Felly, penderfynon nhw wneud pethau ar wahân.

Nododd ei fod wedi cael ei feirniadu a bu dadlau nid yn unig am Borthcawl fel lleoliad ond hefyd Sunnyside ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Yn y pen draw, ni wnaeth dim ddwyn ffrwyth. Dywedodd fod tri safle arall yn cael eu hystyried ar y pryd ac yn ddiarwybod i bobl ym Mhorthcawl.

Ychwanegodd nad oedd yr holl drigolion yn y cyffiniau wedi derbyn llythyr. Dim ond ychydig prin oedd hi ac yn amlwg lledwyd y gair yn gyflym iawn a dyna sut y cysylltwyd ag ef.

Ar y pwynt hwn, aeth y pwyllgor i sesiwn breifat i drafod a oeddent yn cytuno â'r ffeithiau neu a oes anghydfod yn eu cylch o hyd ac yna ar ôl gwneud y penderfyniad hwnnw byddai sesiwn arall yn gyhoeddus gyda'r cynrychiolydd o OSCC a'r Cynghorydd Aspey i benderfynu a oedd y ffeithiau hynny'n golygu y bu methiant i gydymffurfio â'r cod.

### **Penderfyniad y panel oedd eu bod o blaid yr Ombwdsmon, bod y ffeithiau a nodwyd gan yr Ombwdsmon yn gywir.**

Yn dilyn canfod y ffeithiau, aeth y Pwyllgor ati i glywed sylwadau gan y Cynghorydd Aspey ac OSCC ynghylch a oedd y ffeithiau'n gyfystyr â thorri'r Cod Ymddygiad.

### **Cam Dau: Cod Ymddygiad**

Dywedodd y cynrychiolydd OSCC yn gyntaf, gan y canfuwyd bod y ffeithiau yn cyd-fynd â'r adroddiad, y byddai'n crynhoi barn yr Ombwdsmon yn fyr, sydd hefyd i'w gweld yn yr adroddiad, bod y ffeithiau a ganfuwyd yn yr achos hwn yn awgrymu toriad 6(1)(a) - rhaid i Aelodau beidio ag ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ystyried ei fod yn dwyn anfri ar eu swyddfa neu awdurdod – o'r Cod Ymddygiad.

Nododd o ran yr arian a godwyd, nad oes amheuaeth bod y rhoddion a adneuwyd i gyfrif banc personol y Cynghorydd Aspey wedi'u trosglwyddo yn llwyr i gyfrif GoFundMe. Defnyddiwyd y swm a drosglwyddwyd yn ôl o'r cyfrif GoFundMe pan gafodd ei gau i dalu Cyfraith Aciwtedd ac i roi i'r RNLi a'r Cadetiaid Môr, fel y nodir yn y llythyr.

Ni enillodd y Cynghorydd Aspey yn ariannol o'i weithredoedd. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y Cynghorydd Aspey wedi torri paragraff 7(a) o'r Cod Ymddygiad.

Fodd bynnag, er y gallai bwriadau'r Cynghorydd Aspey fod wedi bod yn ystyrllon, darparodd wybodaeth gamarweiniol i drigolion pan ofynnwyd iddynt roi arian i gronfa nad oedd yn angenrheidiol ac na fyddent yn adennill eu harian ohoni pe na bai'r "camau cyfreithiol" a amlinellwyd yn y Llythyr yn digwydd. O ystyried nad oedd unrhyw gais cynllunio wedi ei gyflwyno mewn gwirionedd pan ddosbarthwyd y Llythyr i drigolion, nid oedd unrhyw gais i'w herio drwy gamau cyfreithiol ar y pryd.

Fel Cynghorydd, mae gweithredoedd ac ymddygiad y Cynghorydd Aspey yn destun mwy o graffu na chamau aelodau cyffredin o'r cyhoedd. Wrth ystyried a all ymddygiad y Cynghorydd Aspey ddwyn anfri ar ei swyddfa neu awdurdod, bydd ei weithredoedd yn cael eu hystyried o safbwynt aelod rhesymol o'r cyhoedd.

Nid yw'r Cynghorydd Aspey wedi cynnig unrhyw ddealltwriaeth o'i weithredoedd ac nid yw wedi cydnabod yn ystod yr ymchwiliad bod y Llythyr yn gamarweiniol.

Rhoddodd y Cynghorydd Aspey ei enw a'i statws fel Cynghorydd i gefnogi gwybodaeth gamarweiniol am gais cynllunio arfaethedig yn hytrach nag un gwirioneddol. Bu'n rhaid i'r Cyngor roi hysbysiad i gywiro'r gamwybodaeth hon a dylai'r Cynghorydd Aspey fod wedi gwybod nad oedd yr wybodaeth yn y Llythyr yn gywir. Mae rhannu gwybodaeth anghywir am faterion sy'n ymwneud â busnes y Cyngor a defnyddio'i deitl "Y Cynghorydd" i godi arian yn ymddygiad y gellid yn rhesymol ei ystyried yn ymddygiad a all ddwyn anfri ar ei swyddfa neu awdurdod i anfri ac felly'n awgrymu toriad paragraff 6(1)(a) y Cod Ymddygiad.

Mewn ymateb, dywedodd y Cynghorydd Aspey ei fod bob amser yn gweithredu er budd gorau'r trigolion neu, wrth ymhelaethu, fod y trigolion yn ganolog iddo. Roedd gan nifer eithaf sylweddol o drigolion bryderon mawr ledled y dref, nid yn unig am yr effaith arnyn nhw eu hunain, ond ar yr agwedd dwristiaeth ym Mhorthcawl.

Honnodd iddo weithredu'n ddidwyll. Ni wnaeth neu nid ef oedd awdur gwreiddiol y llythyr a roddwyd iddo a gafodd ei bostio ar y grŵp Facebook i ddechrau. Roedd yn credu bod 1300 o Aelodau yn hwnnw ac yna penderfynwyd gan y grŵp trigolion eu bod yn mynd i'w argraffu a'i ddosbarthu.

Nododd ei fod yn amlwg wedi ystyried hynny am nifer o ddiwrnodau. Nid oedd byth fwriad ar ei ran i elwa'n ariannol a'r ffaith ei fod wedi cymryd amser ofnadwy o hir iddo oherwydd yn amlwg roedd yn rhaid iddo wneud yn siŵr bod y taliadau hyn wedi'u postio'n gywir, roedd yn rhaid eu gwneud ar y diwrnod, ac roedd yn gwirio'r cyfrif dair gwaith y dydd. Bu'n rhaid iddo gyflwyno'i basbort a'i drwydded yrru a dosbarthodd yr arian ar y diwrnod y cafodd ei dderbyn. Rhannwyd yr arian rhwng dwy elusen, y Cadetiaid Môr, a'r RNLI.

Dywedodd, o ran y llythyr ei hun, y gallai trigolion ei roi yn y bin. Gallen nhw ei anwybyddu, neu fe allen nhw ddymuno helpu. Roedd y bobl hynny a gysylltodd â'r Cynghorydd Aspey yn bryderus iawn, iawn ac yn hapus i helpu, gan wybod yn amlwg os nad oedd canlyniad, pe na bai'r cais yn mynd i gael ei gyflwyno neu ei ganslo, eu bod wedi'u cynrychioli'n ddigonol.

Pe bai arian ychwanegol ar gael, roeddent yn fwy na bodlon i hynny fynd i'r elusennau dynodedig, a rhaid i ni ddeall bod Cadetiaid Môr Porthcawl wedi colli £50,000, eu holl gynilion oes yn sgil methiant y Ganolfan Forwrol. Nid oedd ganddynt yr un geiniog ac roedd rhai ohonynt wrth eu boddau eu bod wedi cael £6652. Rhoddodd hynny deimlad

cynnes iddynt o wybod hynny. Nid oedd yr arian, yn eu barn nhw, wedi ei wastraffu. Roeddent yn hapus na wnaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder fwrw ymlaen ag unrhyw gais cynllunio ffurfiol.

Nododd fod y gwesty, o ganlyniad i hynny, wedi ei ddychwelyd yn westy a'i fod yn mynd i gael ei adnewyddu. Yn anffodus, nid oes modd byw ar y llawr uchaf. Digwyddodd hynny yn ystod y cyfnod clo.

Dyweddodd pe bai'n cael ei amser eto, na allai anwybyddu trigolion. Gwnaeth pawb ymdrech i ddod allan i'r stryd. Roedd tair stryd gyfan i gyd yn sefyll mewn gwahanol grwpiau, a fi oedd yr unig gynghorydd tref oedd yno.

Nododd y bu ar Gyngor Tref Porthcawl rhwng 2008 a 2020 ar gyfer y ward a'i fod wedi bod ar Gyngor y Fwrdeistref ers 2011. Dywedodd nad oedd erioed wedi cael unrhyw gwynion a'i fod wedi ceisio ymddwyn mewn modd rhagorol.

Dyweddodd ei fod yn credu bod y broblem yn ymwneud â pharagraff cyntaf y llythyr ond nad oedd bwriad i gamarwain. Ailadroddodd nad oedd wedi elwa'n ariannol. Dywedodd fod llawer o bobl a rhai cynghorwyr yn postio gwybodaeth anghywir, gan wneud cyhuddiadau amdano ei fod yn annibynadwy ac fel cymeriad Arthur Daley yn Minder. Adroddodd ei fod wedi gorfod cymryd camau cyfreithiol yn erbyn un ohonynt a gostiodd dros £2000 iddo er mwyn gwneud yn siŵr bod hynny'n cael ei gywiro ac na fyddai unrhyw sylwadau ffug yn cael eu postio wedi hynny. Yn ffodus, ni chawsant.

Nododd, pe bai rhywbeth yn digwydd yn y dyfodol, y byddai'n cymryd llawer mwy o amser i ystyried a darllen yn drwyadl a chraffu ar unrhyw bapurau.

Dyweddodd ei fod wedi derbyn galwad ffôn gan y Prif Weithredwr yn dweud nad oedd unrhyw beth anghyfreithlon yn y llythyr a hefyd i bwylo o ran unrhyw daliadau a wnaed, a'i fod yn ddiwyd ac yn fanwl iawn gyda hynny ac wedi cyflenwi pob cyfriflen banc.

Dyweddodd ei fod wedi cymryd llawer iawn o amser ar ei ran ef, a'i fod yn falch ei fod wedi gwneud hynny drostynt oherwydd cawsant y canlyniad roedden nhw'n ei ddymuno. Roedd rhai o'r trigolion hynny'n mynd i fynd yr holl ffordd i adolygiad barnwrol pe bai pethau wedi datblygu ymhellach. Roedden nhw'n benderfynol.

Tynnodd sylw nad oedd erioed wedi cael cwyn o'r blaen, a'i fod yn syndod iddo. Roedd yn credu ei bod yn arwyddocaol mai dim ond un person wnaeth gŵyn mewn gwirionedd. Pe bai wedi bod yn gamarweiniol, byddai wedi denu nifer eithaf mawr o gwynion.

Dyweddodd nad oedd y cais cynllunio wedi'i gyflwyno ond ei fod yn mynd i ddigwydd oherwydd bod Cushman a Wakefield wedi dweud wrth bobl a chafodd ei ohirio oherwydd etholiadau'r Senedd ym mis Mai'r flwyddyn honno.

Roedd yn poeni am yr effaith ar dwristiaeth ym Mhorthcawl, y diffyg cysylltiadau trafnidiaeth, yn enwedig trafnidiaeth gyhoeddus, a'r diffyg cyfleusterau gofal iechyd arbenigol y byddai eu hangen mae'n debyg.

Ymyrrodd y cynrychiolydd o OSCC i nodi bod y Cynghorydd Aspey wedi codi rhywbeth newydd. Yn gyntaf, tynnodd sylw at y ffaith bod y Cynghorydd Aspey wedi cyfeirio sawl gwaith at ffeithiau'r achos, a oedd wedi'u penderfynu eisoes. Yn ail, nododd ei fod wedi sôn y gallai'r trigolion finio neu anwybyddu'r llythyr, ond yn amlwg roedd cynnwys y llythyr yn eithaf arwyddocaol a pherthnasol iddynt. Dywedodd hefyd fod trigolion yn ymwybodol pe na bai cais cynllunio yn cael ei gyflwyno y byddai'r arian yn cael ei rannu rhwng y ddwy elusen. I egluro, nid dyna ddywedodd y llythyr. Dywedodd y llythyr y

byddai'r arian dros ben yn cael ei rannu rhwng y ddwy elusen ar ôl i'r cais gael ei ymladd.

At hynny, cyfeiriodd y Cynghorydd Aspey sawl gwaith at bryderon y trigolion. Nid oes amheuaeth bod trigolion yn poeni am y mater hwn ond, i egluro, canfyddiad y Pwyllgor Safonau yw bod y llythyr yn gamarweiniol o ran p'un a oedd y cais cynllunio wedi'i gyflwyno ai peidio. Nododd mai dyna'r canfyddiad a wnaed eisoes ac y dangosodd y Cynghorydd Aspey nad yw'n cytuno ag ef o hyd.

Mewn ymateb, ailadroddodd y Cynghorydd Aspey ei fod yn credu bod y broblem yn y paragraff cyntaf. Pe bai hynny wedi'i eirio'n fwy manwl y byddai wedi bod yn llawer cliriach i'r trigolion. Nid ei fwriad oedd camarwain, ac ymddiheurodd yn ddiffuant os nad oedd wedi sylwi ar rywbeth y dylai fod wedi'i gywiro.

Ar y pwynt hwn, gwahoddodd y Cadeirydd aelodau'r pwyllgor i ofyn cwestiynau i'r Cynghorydd Aspey neu gynrychiolydd OSCC.

Gofynnodd aelod i'r Cynghorydd Aspey a oedd yn cytuno â gweddill y llythyr, o ystyried ei fod yn cyfeirio gryn dipyn at geisiadau cynllunio.

Mewn ymateb, tynnodd y Cynghorydd Aspey sylw at agweddau ar hanes yr adeilad a'r potensial i wneud cais am newid defnydd o fasnachol i breswyl.

Ailadroddodd fod y paragraff cyntaf yn dweud cais cynllunio, ond nad oedd un, ac roedd yn gwybod hynny. Trwy roi cais cynllunio yn y llythyr, mae hynny'n rhoi'r argraff ei fod wedi ei gyflwyno.

Daeth yr aelod yn ôl i ddweud mai'r rheswm iddo godi'r cwestiwn oedd oherwydd bod cais cynllunio yn cael ei ddefnyddio drwy gydol y llythyr ac nid dim ond y paragraff cyntaf.

Ymatebodd y Cynghorydd Aspey drwy ddweud bod cais cynllunio yn gymysg ag arfaethedig ac wedi'i gynllunio ac y byddai wedi bod yn braf ei eirio yr un ffordd ym mhob paragraff yr holl ffordd i lawr. Nododd fod y Saesneg yn iaith amrywiol iawn, iawn, ond nid oedd yn fwriadol, ond efallai y dylai fod wedi craffu ar y llythyr yn fwy na'i sganio cwpl o weithiau.

Gofynnodd aelod arall i'r Cynghorydd Aspey a oedd wedi ystyried cysylltu â'r adran gynllunio i ddarganfod beth oedd y sefyllfa bresennol cyn i'r llythyr gael ei anfon allan?

Ymatebodd y Cynghorydd Aspey drwy ddweud ei fod wedi edrych ar wefan CBSP ond nad oedd dim yno. Edrychodd yn rheolaidd i weld a oedd unrhyw beth yn ymddangos ar y system gynllunio, ond ni wnaeth. Yn y pen draw, ni chyflwynwyd cais cynllunio.

Parhaodd yr aelod drwy ofyn a oedd wedi ystyried cysylltu ag unrhyw un yn yr adran gynllunio yn bersonol?

Ymatebodd y Cynghorydd Aspey drwy nodi ei bod yn system awtomataidd erbyn hyn. Mae cais yn cael ei lwytho ar y system ac yna mae'n enwi'r swyddog sy'n gysylltiedig ag ef. Heb rif cynllunio a heb swyddog wedi ei ddyrannu, byddai wedi bod yn dasg anodd iddynt ei olrhain. Fel aelod o'r ward, byddai wedi cael gwybod am gais cynllunio yn awtomatig ac yna byddai wedi cael cyfle i glicio a derbyn ei fod wedi ei weld ac yna gallai wneud sylwadau p'un ai i gefnogi neu wrthwynebu'r cais. Ailadroddodd ei fod wedi chwilio'n gyson am gais, ond ni ddaeth unrhyw beth mewn gwirionedd.



Ar y pwynt hwn, aeth y pwyllgor allan i ystyried a oedd y cod ymddygiad wedi'i dorri, yn seiliedig ar yr wybodaeth a gyflwynwyd ger eu bron.

### **Canlyniad**

Ar ôl ystyried yn ofalus yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, penderfynodd y Pwyllgor fod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad fel a ganlyn:

Canfu'r Pwyllgor fod yr Aelod wedi torri paragraff 6 (1) (a) o'r Cod Ymddygiad am y rhesymau canlynol:

Wrth edrych ar ymddygiad yr Aelod yn ei gyfanrwydd, roedd y Pwyllgor o'r farn ei bod yn ddigon difrifol ei natur i ddwyn anfri ar y Cyngor a'i swydd fel aelod. Bu'r ymddygiad yn niweidiol i'r berthynas yn y Cyngor a'i weinyddiaeth ac wedi niweidio ei enw da. Roedd yr Aelod yn gwybod y broses ar gyfer gwirio a oedd cais cynllunio wedi'i gyflwyno ac y gallai fod wedi egluro'r sefyllfa. Arweiniodd ei weithredoedd at y Cyngor yn gorfod cyflwyno datganiad i'r wasg er mwyn rhoi eglurder i'r cyhoedd.

### **Cam Tri: Y Gosb**

Wrth ystyried pa gosb oedd yn briodol, gwrandawodd y Pwyllgor ar sylwadau gan y Cynghorydd Aspey ac OSCC. Gwnaethant ystyried y Canllawiau Cosbau a gyhoeddwyd gan Banel Dyfarnu Cymru a ffactorau lliniaru a gwaethygu.

Nododd y cynrychiolydd o OSCC mai mater i'r Pwyllgor Safonau oedd ystyried a oedd cosb yn briodol ond bod nifer o bethau y byddai angen eu hystyried, gan gynnwys ffactorau lliniaru a gwaethygu. Cyhoeddodd PDC ganllawiau ar ei ddull o weithredu cosbau. Nododd y byddai'n cyfeirio atynt i roi syniad i'r aelodau o'r fframwaith a ddefnyddir yn gyffredinol.

O ran pwysigrwydd sylfaenol hyrwyddo'r safonau uchaf mewn bywyd cyhoeddus, nod y canllawiau oedd cynorthwyo tribiwnlysoedd i benderfynu ar gosbau sydd, ym mhob achos, yn deg, yn gymesur, ac yn gyson.

Dilynodd PDC broses pum cam lle aseswyd difrifoldeb y toriad ac unrhyw ganlyniadau i unigolion a'r Cyngor, nodwyd y mathau o gosb, ystyriwyd unrhyw ffactorau lliniaru neu waethygu perthnasol, ystyriwyd unrhyw addasiad pellach i sicrhau bod y gosb yn cael effaith briodol o ran cyflawni diben y gosb, ac yna cadarnhawyd ac eglurwyd y penderfyniad.

Aeth ymlaen i nodi'r ffactorau lliniaru yn yr achos hwn. Mae gan y Cynghorydd Aspey gofnod blaenorol o wasanaeth da dros gyfnod hir. Yn yr achos hwn, mae'r panel yn cyfeirio at achos unigol o dorri'r cod. Mae'n ymddangos bod y Cynghorydd Aspey wedi'i ysgogi gan awydd i gynorthwyo'r Grŵp Gweithredu ac ennyn cefnogaeth a chyllid i ymdrin â'r mater hwn.

O ran ffactorau gwaethygu, yn yr achos hwn mae'r Cynghorydd Aspey wedi mynychu hyfforddiant rheolaidd ar y Cod Ymddygiad drwy gydol ei gyfnod yn y swydd. Cafodd nifer o bobl eu camarwain i drosglwyddo arian i'r Grŵp Gweithredu pan nad oedd angen iddynt wneud hynny. Arweiniodd hefyd at sylw negyddol i'r Cyngor, gan ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi datganiad i gywiro'r sefyllfa. Gall yr wybodaeth gamarweiniol effeithio ar yr ymddiriedaeth sydd gan aelodau'r cyhoedd yn swyddfa'r aelod ac mae'r Cynghorydd Aspey wedi methu â chydabod bod y llythyr yn gamarweiniol ac nid yw ychwaith wedi awgrymu pe bai'r sefyllfa'n codi eto, y byddai'n gweithredu'n wahanol ac eithrio newid paragraff un. Nid yw hyn yn cydnabod ei ran wrth arwain pobl i gredu bod

angen iddynt roi arian i ymladd rhywbeth na ddigwyddodd erioed, a barn yr Ombwdsmon yw bod hyn wedi dwyn anfri ar y swyddfa a'r awdurdod, ac mae hyn bellach yn farn y Pwyllgor Safonau.

O ran difrifoldeb y toriad, nododd y panel y materion y gallai eu hystyried, sy'n cynnwys natur a maint y toriad a nifer y toriadau, euogrwydd yr aelod, ei fwriadau wrth dorri'r cod, ac unrhyw achosion blaenorol o dorri'r cod, canlyniadau gwirioneddol a phosibl y toriad i'r unigolyn, y cyhoedd, neu'r Cyngor yn ei gyfanrwydd, ac i ba raddau y mae gweithredoedd yr aelod yn dwyn anfri ar ei swyddfa neu'n debygol o fod â'r potensial i wneud hynny.

Gwahoddodd yr Ombwdsmon y Pwyllgor i ystyried cerydd fel y gosb leiaf i feithrin hyder y cyhoedd mewn democratiaeth leol. Canfuwyd bod y Cynghorydd Aspey wedi dwyn anfri ar ei swyddfa a'r Awdurdod, sy'n torri'r Cod Ymddygiad yn ddifrifol.

Ar ôl asesu difrifoldeb y toriad a'r ffactorau lliniaru a gwaethygu, gwahoddodd y cynrychiolydd o OSCC y Pwyllgor i ystyried a fyddai'n briodol i'r Cynghorydd Aspey gael ei wahardd o'r Cyngor am gyfnod byr. Mae gwaharddiad o lai na mis yn annhebygol o gyflawni amcanion y drefn cosbau ac mae risg y bydd yn tanseilio ei huchelgais cyffredinol.

Mewn ymateb, nododd y Cynghorydd Aspey, o ran ei gyfreithlondeb, ei fod yn gwybod nad oedd gan wasanaeth rheoliadol a rennir CBSP unrhyw broblem. Nododd ei fod yn deall effaith geiriad y llythyr ac nad oedd bwriad bwriadol erioed ar fy rhan i i gamarwain trigolion. Roedd wedi gweithredu'n ddidwyll ac yn barod i gefnogi hawl y trigolion yr holl ffordd. Honnodd nad oedd yn un o'r bobl hynny i gerdded i ffordd. Edrychodd ar yr effaith ehangach nid ar yr ardal leol yn unig, ond Porthcawl yn gyffredinol. Nododd fod y dref wedi cael trafferthion mawr dros y blynyddoedd diwethaf, a bod arwyddion da ei bod yn dechrau dychwelyd. Iddo ef yn bersonol, byddai wedi cael effaith andwyol ar dwristiaeth.

Ymddiheurodd yn ddiffuant a dywedodd y byddai'n cymhwyso'i hun yn fwy diwyd mewn unrhyw ohebiaeth a fyddai'n dod ato yn y dyfodol. Ni wnaeth dorri rheolau data ac roedd yn ei drydydd tymor gyda'r awdurdod bellach. Nid oedd erioed wedi cael unrhyw broblemau gydag unrhyw beth o'r blaen.

Byddai'n ofalus gydag unrhyw beth yn y dyfodol a allai ddod ato oherwydd nad oedd ganddo unrhyw fwriad i dorri'r Cod Ymddygiad. Hoffai ystyried ei hun yn berson da iawn i'w gymuned. Roedd am sicrhau bod Porthcawl yn datblygu yn yr 21ain ganrif. Roedd hi'n dal ar ei hôl hi yn yr 20<sup>fed</sup>.

Dywedodd ei fod wedi ei ddal allan a bod hyn wedi costio llawer o amser iddo. Byddai'n sicrhau ei fod yn cynrychioli pobl a bleidleisiodd yn yr etholiad ac yn meddwl, pe bai gan bobl broblemau difrifol gyda'r ffordd yr oedd wedi gweithredu, nad oedd ganddo unrhyw amheuaeth o gwbl na fyddai wedi cael ei ailethol. Nododd pan ddaeth pobl ato yn yr orsaf bleidleisio, eu bod bob amser yn pleidleisio dros blaid benodol, ond eu bod wedi pleidleisio drosto oherwydd eu bod yn ymddiried ynddo.

Nid oedd yn fwriad ganddo gamarwain unrhyw un mewn unrhyw ffordd. Roedd bob amser yn ceisio rhoi cyngor ac arweiniad da lle bynnag y gallai ac os nad oedd yn gallu helpu, ceisiodd cyfeirio pobl i rywun a allai helpu. Dyna'r ffordd y byddai'n ymdrin â phethau. Hoffai feddwl ei fod yn berson ystyriol ac roedd bob amser eisiau cynrychioli'r gymuned.

Daeth y Cadeirydd â'r rhan hon o'r gwrandawriad i ben a dywedodd eu bod wedi

gwrando ar sylwadau gan y ddwy ochr bellach o ran ffactorau lliniaru a gwaethygu, ac ar ôl clywed hynny, y byddent yn mynd yn ôl i sesiwn breifat i benderfynu ar y gosb briodol.

### **Canlyniad Terfynol**

Ar ôl sefydlu'r ffeithiau a phenderfynu y torrwyd y Cod Ymddygiad, penderfynodd y Pwyllgor, ar ôl ystyried difrifoldeb yr ymddygiad dan sylw a'r ffactorau lliniaru a gwaethygu perthnasol, y dylai'r Cynghorydd Aspey gael ei wahardd o'i swydd am gyfnod o dri mis.

O ran y ffactorau lliniaru, cydnabu'r Pwyllgor fod yr Aelod wedi ymgymryd â'r broses ymchwilio a bod ganddo flynyddoedd lawer o wasanaeth da. Ni fi unrhyw fudd personol a chydabuwyd y cymhelliant i gynorthwyo'r cyhoedd.

Gan droi at ystyried y ffactorau gwaethygu, canfu'r Pwyllgor fod gan yr Aelod yr wybodaeth a'r adnoddau i wirio a oedd cais cynllunio wedi'i gyflwyno. Roedd yr Aelod wedi cynnwys ei enw a'i ragddodiad Cyng a fyddai wedi ychwanegu statws at y llythyr, a anfonwyd at nifer o drigolion.

Rhoddwyd gwybod i'r Cynghorydd Aspey y byddai'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol yn ei ffonio i egluro pryd y byddai'r gosb yn cychwyn. Cafodd wybod hefyd fod ganddo'r hawl i apelio. Byddai hysbysiad penderfynu ysgrifenedig a fyddai'n cael ei gyhoeddi a byddai'r Cynghorydd Aspey a'r Ombwdsmon yn cael llythyr yn cadarnhau canlyniad y gwrandawriad heddiw.